

Canllawiau ar ddatganiadau ar gyfer cofrestreion sydd wedi cymhwyso'n llawn

Sut rydym yn ystyried gwybodaeth y mae ymgeiswyr neu gofrestrwyr yn ei datgan Canllaw ar gyfer optometryddion ac optegwyr cyflenwi sydd wedi cymhwyso'n llawn, a'r rhai a gymhwysodd dramor.

Tachwedd 2013



Cynnwys

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen?.....	4
Ynghylch y ddogfen	
hon.....	4
Adran un: cyflwyniad.....	5
Cofrestr GOC.....	5
Adran dau: gwybodaeth i'r rheini sy'n gwneud cais i ymuno â chofrestr GOC	6
Ymgeiswyr unigol sydd wedi cymhwyso'n llawn	6
Datganiadau sy'n ymwneud ag iechyd.....	7
Datganiadau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau neu ganlyniadau troseddol neu ddisgyblu	8
Gwybodaeth arall	12
Ymgeiswyr unigol sydd wedi cymhwyso'n llawn na chymhwysodd yn y DU.....	12
Datganiadau sy'n ymwneud ag iechyd (ymgeiswyr nad ydynt o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn unig)	13
Datganiadau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau neu ganlyniadau troseddol neu ddisgyblu (pob ymgeisydd o du allan i'r DU).....	15
Gwybodaeth arall.....	18
Adran tri: gwybodaeth i'r rhai sy'n gwneud cais am adferiad i gofrestr GOC.....	19
Ymgeiswyr unigol sydd wedi cymhwyso'n llawn	19
Datganiadau sy'n ymwneud ag iechyd.....	21
Datganiadau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau neu ganlyniadau troseddol neu ddisgyblu	22
Gwybodaeth arall.....	26
Ymgeiswyr unigol sydd wedi cymhwyso'n llawn na chymhwysodd yn y DU.....	27
Adran pedwar: gwybodaeth i'r rheini sy'n gwneud cais i aros ar gofrestr GOC	28
Ymgeiswyr unigol sydd wedi cymhwyso'n llawn	28
Datganiad addasrwydd i ymarfer.....	29
Datganiadau sy'n ymwneud ag iechyd.....	29
Datganiadau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau neu ganlyniadau troseddol neu ddisgyblu	31
Gwybodaeth arall.....	34
Ymgeiswyr unigol sydd wedi cymhwyso'n llawn na chymhwysodd yn y DU.....	35

Adran pump: sut rydym yn ystyried gwybodaeth a dderbyniwn	36
Gwybodaeth am iechyd	36
Gwybodaeth am faterion troseddol neu ddisgyblu	38
Ymarfer tra'n anghofrestredig	40

Sut i apelio yn erbyn penderfyniad	42
Ble i gael rhagor o wybodaeth.....	42
Ymwadiad.....	42
Atodiad un – Datganiad y Cyngor Optegol Cyffredinol ar geisiadau i drosglwyddo cofrestriad lle mae'r ymgeisydd yn destun ymchwiliad addasrwydd i ymarfer gan y Cyngor Optegol Cyffredinol.	44

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen?

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi arweiniad i'r grwpiau canlynol o bobl:

- Y rheini sy'n gwneud cais i'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) i gofrestru, neu sy'n ystyried gwneud cais ('ymgeisydd'); a
- Y rheini sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol ar hyn o bryd, ac sy'n gwneud cais i gadw cofrestriad ('cofrestrai').

Bydd y ddogfen hefyd yn cael ei defnyddio gan y Cofrestrydd, staff yn nhîm Cofrestru'r Cyngor Optegol Cyffredinol, aelodau o Gyngor a Phwyllgorau'r Cyngor Optegol Cyffredinol (gan gynnwys y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru), ac unrhyw berson arall sy'n dymuno deall yr egwyddorion a'r prosesau ar gyfer ystyried ceisiadau gyda datganiadau.

Ynghylch y ddogfen hon

I'ch helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, rydym wedi rhannu'r ddogfen hon yn

bum adran. Ceir gwahanol adrannau ar gyfer ymgeiswyr a chofrestreion.

Weithiau rydym wedi ailadrodd yr un wybodaeth mewn mwy nag un adran; mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol i'r rheini sy'n darllen gwahanol rannau o'r ddogfen.

Yn gyffredinol, rydym wedi rhannu'r ddogfen i'r adrannau canlynol:

- Mae Adran un, **y cyflwyniad**, yn cynnwys gwybodaeth amdanom ni a'n rôl ni yn rheoleiddio'r proffesiynau optegol. Mae'r adran hon ar gyfer pawb;
- Mae Adran dau, **gwybodaeth ar gyfer y rheini sy'n gwneud cais i ymuno â chofrestr GOC**, wedi'i hanelu at unigolion sydd wedi cymhwyso'n llawn ac sy'n gorfod ymuno â'r gofrestr er mwyn ymarfer;
- Mae Adran tri, **gwybodaeth ar gyfer y rhai sy'n gwneud cais am adferiad i gofrestr GOC**, wedi'i hanelu at unigolion sy'n dymuno dychwelyd i ymarfer ar ôl cyfnod o beidio â chofrestru;
- Mae Adran pedwar, **gwybodaeth ar gyfer y rhai sy'n gwneud cais i aros ar gofrestr GOC**, yn ymwneud ag unigolion sydd wedi cymhwyso'n llawn ac sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol ar hyn o bryd ac y mae'n rhaid iddynt adnewyddu eu cofrestriad yn flynyddol; a
- Mae Adran pump, **sut rydym yn ystyried gwybodaeth a gawn**, yn egluro'r broses y bydd y GOC yn ei dilyn wrth ystyried datganiad sydd wedi'i wneud. Mae'r adran hon wedi'i hanelu at ymgeiswyr a chofrestreion.

Adran un: cyflwyniad

Mae'r GOC yn un o 13 o sefydliadau yn y DU sy'n cael eu galw'n rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r sefydliadau hyn yn goruchwyllo'r proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol drwy reoleiddio gweithwyr proffesiynol unigol.

Ni yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y proffesiynau optegol yn y DU. Ar hyn o bryd, mae tua 26,000 o optometryddion, optegwyr cyflenwi, optegwyr dan hyfforddiant a busnesau optegol wedi'u cofrestru â ni.

Mae gan y GOC bedair prif swyddogaeth:

- Gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant optegol, perfformiad ac ymddygiad;
- Cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestru;
- Cadw cofrestr o unigolion sy'n gymwysedig ac yn addas i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes fel optometryddion ac optegwyr cyflenwi;
- Ymchwilio a gweithredu os bydd amhariad ar addasrwydd cofrestreion i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes.

Mae gan y GOC gyfrifoldeb i sicrhau mai dim ond y rhai sydd ar ein cofrestr all ddefnyddio

'teitl gwarchodedig', fel optometrydd neu optegydd cyflenwi. Mae unrhyw un sy'n defnyddio teitl gwarchodedig ac nad yw wedi'i gofrestru gyda ni yn torri'r gyfraith a gellid ei erlyn.

Cofrestr GOC

Mae cofrestr GOC ar gael ar ein gwefan yn www.optical.org. Gall unrhyw un ei chwilio i wneud yn siŵr bod ei optegydd wedi'i gofrestru. Mae'r gofrestr yn cynnwys gwahanol ddarnau o wybodaeth am unigolion a busnesau sydd wedi cofrestru gyda ni, gan gynnwys:

- Eu rhif cofrestru GOC;
- Eu math o gofrestriad (boed yn optometrydd, optegydd cyflenwi, myfyriwr neu gorff corfforedig);
- Y cymwysterau y maent wedi'u rhestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol (gan gynnwys eu prif gymhwyster sy'n caniatáu iddynt gael eu cynnwys ar y gofrestr, lle bo hynny'n berthnasol); ac
- A ydynt yn destun unrhyw ganlyniadau addasrwydd i ymarfer megis atal dros dro neu gofrestriad amodol.

Adran dau: gwybodaeth i'r rheini sy'n gwneud cais i ymuno â chofrestr GOC

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am y broses ymgeisio a'r wybodaeth y mae angen i chi ei rhoi i ni er mwyn i ni allu penderfynu a ydych am roi eich enw ar y gofrestr ai peidio.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses gofrestru, gan gynnwys ffurflenni cofrestru a sut mae ein ffioedd wedi'u strwythuro, ar gael ar ein gwefan yn:

http://www.optical.org/en/our_work/Registration/index.cfm

Ymgeiswyr unigol sydd wedi cymhwyso'n llawn

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno ymarfer fel optometrydd neu optegydd cyflenwi yn y DU

fod wedi cofrestru â'r Cyngor Optegol Cyffredinol.

Er mwyn i'r GOC eich cofrestru, rhaid i chi lenwi cais i gofrestru. Rhaid i chi wneud hyn hyd yn oed os ydych wedi cofrestru gyda'r GOC fel myfyriwr ar hyn o bryd. Fel rhan o'r cais hwn, bydd gofyn i chi roi gwybodaeth i ni, gan gynnwys:

- Enwau a chyfeiriadau lle rydych yn ymarfer, yn ogystal â chyfeiriad cyswllt;
- Ffotograff ohonoch, wedi'i ardystio gan rywun sydd wedi eich adnabod ers o leiaf ddwy flynedd (ac nad yw'n berthynas);
- Ardystiad gan eich corff arholi eich bod wedi bodloni eu gofynion ac yn gymwys i ymarfer;
- Gwybodaeth am eich polisi yswiriant; a
- **Datganiad** gennych chi eich bod yn berson addas i ymarfer, neu wybodaeth am gyflyrau iechyd, neu ymchwiliadau troseddol neu ddisgyblu, y bydd angen i ni eu hystyried cyn caniatáu eich cofrestriad. Trafodir hyn yn fanylach isod.

Bydd yr holl wybodaeth a ofynnwn gennych chi yn ein helpu i sicrhau:

- Mai chi ydych chi;
- Mae gennych gymhwyster gan gorff arholi sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Optegol Cyffredinol;
- Eich bod yn bodloni ein safonau ar gyfer addasrwydd i ymarfer; a
- Mae gennym eich manylion cyswllt.

Datganiad addasrwydd i ymarfer

Mae Adran 8 Deddf Optegwyr 1989 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan "bydd gan berson hawl i gael ei enw ar y gofrestr briodol os yw'n bodloni'r Cyngor ei fod ... yn berson addas i ymarfer fel optometrydd neu optegydd cyflenwi".

Mae Rhan pump o Reolau Cyngor Optegol Cyffredinol (Cofrestru) 2005 yn datgan y bydd ymgeiswyr am gofrestrriad yn gwneud datganiad ynghylch ymchwiliadau neu ganlyniadau disgyblu neu droseddol, ac mewn perthynas â'u hiechyd corfforol neu feddyliol.

Eich cyfrifoldeb chi, fel yr ymgeisydd, yw rhoi unrhyw wybodaeth i ni am y meysydd hyn. Os na fyddwch chi'n gwneud hynny, a'i fod yn dod i'n sylw'n ddiweddarach, efallai y bydd hyn yn golygu y byddwn yn cymryd camau mewn perthynas â'ch cofrestrriad.

Datganiadau sy'n ymwneud ag iechyd

Mae datganiadau sy'n ymwneud ag iechyd yn cyd-fynd yn fras â'r categorïau iechyd corfforol neu feddyliol (er y bydd adegau pan fydd y datganiad yn cynnwys elfennau o'r ddau).

Nid yw'r GOC yn gwneud penderfyniadau ynghylch a yw unigolion yn 'iach' neu mewn 'iechyd da', nac am anabledau. Mae anabledau a chyflyrau iechyd yn effeithio ar wahanol bobl mewn gwahanol ffyrdd ac nid oes rhestr o gyflyrau neu anabledau iechyd 'derbyniol' neu 'annerbyniol'. Mae gan y Cyngor hefyd gyfrifoldeb i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag adrannau perthnasol Deddf Cydraddoldeb 2010. Fel corff cyhoeddus, mae'r GOC yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ("y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol"). Mae'r ddyletswydd yn cwmpasu'r holl seiliau gwarchoddedig: oedran, anabled, rhywedd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred a chyfeiriadedd rhywiol. Bwriad y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yw sicrhau bod rhaid i gorff cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i dri phrif nod:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf Cydraddoldeb neu oddi tani
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu; a
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu.

Mae 'sylw dyledus' yn golygu meddwl yn ymwybodol am dri nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ystyriaeth o faterion cydraddoldeb ddylanwadu ar y penderfyniadau y mae cyrff cyhoeddus yn eu gwneud – fel sut maent yn gweithredu fel cyflogwyr; sut maent yn datblygu, yn gwerthuso ac yn adolygu polisi; sut maent yn dylunio, yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau, a sut maent yn comisiynu ac yn caffael gan eraill.

O ran ystyried datganiad a wnaed yn ymwneud ag iechyd fel rhan o gais, nid oes felly unrhyw ragdybiaeth y byddai person ag anabled neu rywun sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor yn peri risg i'r cyhoedd wrth weithio fel optometrydd neu optegydd cyflenwi.

Mae'r GOC yn gofyn i chi wneud datganiad am eich iechyd dim ond os gall effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer ar hyn o bryd. Os byddwch yn datgan cyflwr iechyd i ni, byddwn am wneud yn siŵr bod gennych fewnwelediad a dealltwriaeth o'ch iechyd a sut y gallai effeithio ar eich gallu i ymarfer yn ddiogel. Mae mewnwelediad a dealltwriaeth at ein dibenion ni yn golygu eich bod wedi ystyried sut y gallai eich cyflwr iechyd gyfyngu ar eich gallu i ymgymryd â rhai agweddau ar ymarfer, ac wedi cymryd camau priodol i sicrhau nad ydych yn rhoi cleifion, y cyhoedd neu chi eich hun mewn perygl.

Wrth wneud datganiad am eich iechyd i ni, dylech roi gwybodaeth i ni sy'n berthnasol i'r datganiad rydych chi'n ei wneud. Er bod ymgeiswyr yn cael eu hannog i ddarparu cymaint o wybodaeth ag sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw, gofynnwn i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol o leiaf:

- Natur y cyflwr;
- Dyddiad y diagnosis; a
- Manylion unrhyw driniaeth sydd ei hangen.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom, byddwn yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi ddarparu hyn. Os byddwn yn gwneud hyn, bydd y GOC yn cael ei arwain gan egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 bod unrhyw ddata y gofynnir amdano, sydd yn cael ei ddal a'i brosesu gennym ni yn berthnasol ac yn gymesur â'r rhesymau pam ein bod wedi gofyn amdano. Mae rhagor o wybodaeth am wybodaeth ychwanegol y gallai fod ei hangen arnom ar gael yn adran pump y ddogfen hon.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â'ch iechyd ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

Rhaid i chi roi cymaint o wybodaeth â phosibl i ni, er mwyn i ni allu asesu a allai eich cyflwr iechyd effeithio ar eich gallu i ymarfer. Bydd darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

Datganiadau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau neu ganlyniadau troseddol neu ddisgyblu

Mae'n ofynnol hefyd i ymgeiswyr ddatgan y canlynol:

- a. Unrhyw euogfarnau (gan gynnwys euogfarn gan lys milwrol) neu rybuddion a gafwyd ar Ynysoedd Prydain am drosedd, neu euogfarn yn rhywle arall am drosedd a fyddai, pe bai'n cael ei chyflawni yng Nghymru neu Loegr, yn drosedd;
- b. A ydynt wedi derbyn cynnig amodol o dan adran 302 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995 (cosb benodedig: cynnig amodol gan brocuradur ffisgal);
- c. A ydynt wedi cytuno i dalu cosb o dan adran 115A o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 (dirwy yn lle erlyniad);
- d. A ydynt wedi bod yn destun gorchymyn o dan Adran 246(2) neu (3) Deddf Trefniadaeth Droseddol (yr Alban) 1995 i'w rhyddhau'n ddiamed, neu os bydd corff rheoleiddio y tu allan i'r Deyrnas Unedig wedi gwneud penderfyniad i'r un perwyl; a
- e. A ydynt wedi bod yn destun penderfyniad gan gorff yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol o dan unrhyw ddeddfiad am reoleiddio'r proffesiwn ieched neu ofal cymdeithasol wedi gwneud penderfyniad i'r perwyl bod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer fel aelod o'r proffesiwn hwnnw, neu os bydd corff rheoleiddio y tu allan i'r Deyrnas Unedig wedi gwneud penderfyniad i'r un perwyl; a
- f. Maent ar hyn o bryd yn destun unrhyw ymchwiliad neu achos a allai arwain at unrhyw un o'r canlyniadau a ddisgrifir yn a-e uchod.

Gan ystyried pob un o'r meysydd hyn yn eu tro, rhoddir esboniad pellach isod.

a-d: euogfarnau, rybuddion, a chosbau a gorchmynion eraill

Rhaid i chi ddatgan ar eich cais os ydych chi erioed wedi cael euogfarn neu rybudd ac, ar ben hynny, unrhyw ganlyniadau sy'n ymwneud â llysoedd yr Alban fel y disgrifir uchod. Nid yw Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 ("y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr") yn berthnasol i bobl sy'n dymuno ymuno â chofrestr GOC. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw euogfarn neu rybudd rydych wedi'i gael, hyd yn oed os yw wedi 'disbyddu' dan y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr honno, oni bai ei fod yn rybudd euogfarn 'gwarchodedig'. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y cewch eich cyfeirio at Adran Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol a gellid cymryd camau yn eich erbyn a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

Diogelir rybudd rhag cael ei ddatgelu chwe blynedd ar ôl iddo gael ei dderbyn. Os oedd y troseddwr yn llai na 18 oed pan dderbyniwyd y rybudd, yna gostyngir y cyfnod hwnnw i ddwy flynedd.

Mae euogfarn wedi'i diogelu rhag cael ei datgelu ar ôl 11 mlynedd. Os oedd y troseddwr yn llai na

18 oed pan gafwyd yr euogfarn, yna gostyngir y cyfnod hwnnw i bum mlynedd a hanner. Fodd bynnag, yn y naill achos neu'r llall, ni fydd euogfarn yn cael ei gwarchod rhag cael ei datgelu oni bai fod y troseddwr wedi cael dedfryd ddigarchar ac nad oes ganddo unrhyw euogfarnau eraill.

Ni fydd rhybudd neu euogfarn yn cael eu gwarchod rhag cael eu datgelu os yw am 'drosedd rhestredig' dan Orchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975. Mae troseddau rhestredig yn cynnwys troseddau treisgar a rhywiol difrifol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, sy'n arbennig o berthnasol i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Rhaid datgelu rhybudd neu euogfarn am 'drosedd rhestredig' i'r Cyngor Optegol Cyffredinol bob amser.

Mae rhagor o ganllawiau ar droseddau rhestredig ar gael ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service).

Wrth wneud datganiad mewn perthynas ag euogfarn neu rybudd, rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd raid i ni ofyn i chi am ragor o wybodaeth, a allai arafu hynt eich cais.

Os ydych yn ansicr ar ôl darllen y canllawiau hyn ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas ag euogfarn neu rybudd, efallai y byddwch am geisio cyngor cyfreithiol annibynnol cyn penderfynu a ddylech wneud datganiad ai peidio.

Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

e. penderfyniad gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol

Rhaid i chi hefyd ddweud wrthym a oes penderfyniad wedi'i wneud yn eich erbyn gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol neu sefydliad gofal sylfaenol yn y DU. Mae'r cyrff perthnasol fel a ganlyn:

- Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol • Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol • Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol • Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Cyngor Osteopathig Cyffredinol • Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon

- Sefydliadau gofal sylfaenol neu Fyrddau Iechyd

Hefyd, dylech ddweud wrthym a oes penderfyniad wedi'i wneud yn eich erbyn gan un o'r cyrff a ragflaenodd rhai uchod (er enghraifft, y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol neu Gymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr).

Os ydych chi, neu os ydych chi erioed wedi cael eich cofrestru â chorff rheoleiddio, ac wedi cael sancsiwn sy'n ymwneud â'ch addasrwydd i ymarfer, neu os canfuwyd yr amharwyd ar eich addasrwydd i ymarfer, rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn.

Hefyd, os ydych chi wedi bod yn destun sancsiwn gan sefydliad gofal sylfaenol y GIG (er enghraifft, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol neu Fwrdd Iechyd Lleol), naill ai fel cyflogai neu ddarparwr gwasanaeth, rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn. Hefyd, os ydych chi wedi cael dyfarniad sy'n ymwneud â'ch addasrwydd i ymarfer gan gorff rheoleiddio y tu allan i'r DU, rhaid i chi ddweud wrthym am hyn.

Wrth wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad gan gorff rheoleiddio, darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl, gan gynnwys y canlyniad neu'r sancsiwn a osodwyd a'r amgylchiadau a arweiniodd at y dyfarniad. Bydd darparu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestriad parhaus.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

f. ymchwiliadau cyfredol gan yr heddlu neu gorff rheoleiddio

Rhaid i chi ddatgan ar eich cais os ydych chi'n destun ymchwiliad gan yr heddlu ar hyn o bryd am drosedd a allai arwain at euogfarn neu rybudd. Os ydych chi'n destun ymchwiliad gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol (gweler yr adran flaenorol), neu gan sefydliad gofal sylfaenol, rhaid i chi hefyd ddweud wrthym am hyn.

Os ydych chi'n destun ymchwiliad gan heddlu y tu allan i'r DU, am drosedd a allai arwain at euogfarn yng Nghymru neu Loegr, rhaid i chi ddatgan hyn. Hefyd, os ydych chi'n destun ymchwiliad gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol y tu allan i'r DU, rhaid i chi hefyd roi gwybod i ni am hyn.

Wrth wneud datganiad mewn perthynas ag ymchwiliadau cyfredol, darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl, gan gynnwys gwybodaeth am yr amgylchiadau a arweiniodd at yr ymchwiliad. Bydd darparu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn

gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais.

Mewn achosion lle byddwn yn derbyn cais sy'n cynnwys datganiad am ymchwiliad presennol, mae'n annhebygol y bydd hyn yn eich atal rhag cael eich cofrestru. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar natur a difrifoldeb yr honiadau yn eich erbyn yr ymchwiliad iddynt. Os byddwn yn penderfynu eich cofrestru, byddwn yn gofyn i chi roi gwybod i ni am ganlyniad yr ymchwiliad. Os bydd y canlyniad yn arwain at gosb i chi, neu os oes gennym bryderon am eich addasrwydd i ymarfer, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y GOC (os ydych wedi cofrestru ar y pryd); byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

Fel yn achos yr holl wybodaeth y gofynnwn amdani ac yr ydym yn ei dal amdano, bydd y GOC yn cael ei arwain gan egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 bod unrhyw ddata y gofynnir amdano, sydd yn cael ei ddal a'i brosesu gennym ni yn berthnasol ac yn gymesur â'r rhesymau pam ein bod wedi gofyn amdano.

Gwybodaeth arall

Yn ogystal â'r datganiadau a ddisgrifir uchod y mae'n ofynnol i chi eu gwneud, rhaid i unrhyw ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad GOC. Mae'r Cod yn disgrifio sut mae'r GOC yn disgwyl i'r rheini sydd ar ein cofrestr ymddwyn, er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd. Dylech wneud eich cais gan gyfeirio at y Cod a datgan unrhyw faterion i'r GOC ar eich cais a allai effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer. Gall y rhain gynnwys penderfyniad gwahardd cyfredol neu flaenorol a wnaed gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu Disclosure Scotland. Bydd darparu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

Mae'r materion **nad oes** angen i ni gael gwybod amdanynt yn cynnwys:

- Cael eich datgan yn fethdalwr. Dim ond os gall amgylchiadau'r methdaliad effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer y dylid datgan hyn; ac
- Os ydych chi'n destun hawliad esgeulustod meddygol. Rydym yn cydnabod y gallai claf fod wedi gwneud hawliad yn eich erbyn mewn perthynas ag esgeulustod clinigol. Tra bod hyn yn cael sylw, nid oes angen i chi ddweud wrthym am hyn. Fodd bynnag, os gallai amgylchiadau'r hawliad effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer, dylech ddweud wrthym am hyn.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

Ymgeiswyr unigol sydd wedi cymhwyso'n llawn na chymhwysodd yn y DU

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno ymarfer fel optometrydd neu optegydd cyflenwi yn y DU gofrestru â'r GOC. Mae hyn yn cynnwys unigolion sydd wedi cymhwyso fel optometrydd neu optegydd cyflenwi y tu allan i'r DU.

Er mwyn i'r GOC eich cofrestru, rhaid i chi lenwi cais i gofrestru. Os gwnaethoch gymhwyso fel optometrydd neu optegydd cyflenwi y tu allan i'r DU ond o fewn yr Undeb Ewropeaidd (UE) (gan gynnwys Norwy, Lichtenstein neu Wlad yr Iâ), rhaid i chi lenwi ffurflen gais yr UE. I gael copi o'r ffurflen, cysylltwch â thîm Cofrestru GOC.

Os gwnaethoch gymhwyso fel optometrydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop (AEE), rhaid i chi, yn y lle cyntaf, gysylltu â Choleg yr Optometryddion a fydd yn egluro beth fydd angen i chi ei wneud er mwyn ymuno â chofrestr GOC.

Os gwnaethoch gymhwyso fel optegydd cyflenwi y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop (AEE), rhaid i chi, yn y lle cyntaf, gysylltu â Chymdeithas Optegydd Cyflenwi Prydain a fydd yn egluro beth fydd angen i chi ei wneud er mwyn ymuno â chofrestr GOC.

Mae rhagor o wybodaeth (gan gynnwys gwybodaeth gyswllt ar gyfer y sefydliadau a nodir uchod) am sut i gofrestru gyda'r GOC gyda chymhwyster a enillwyd y tu allan i'r DU ar gael ar ein gwefan yn:

http://www.optical.org/en/our_work/Registration/Applying_for_registration/Non-UK_applicants.cfm

Pan fyddwch yn cwblhau eich cais i gofrestru, byddwn yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth benodol i ni.

Bydd yr holl wybodaeth a ofynnwn gennych chi yn ein helpu i sicrhau:

- Mai chi ydych chi;
- Eich bod yn bodloni ein safonau ar gyfer addasrwydd i ymarfer; a
- Mae gennym eich manylion cyswllt.

Datganiad ymarfer

Mae Adran 8 Deddf Optegwyr 1989 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan “bydd gan berson hawl i gael ei enw ar y gofrestr briodol os yw'n bodloni'r Cyngor ei fod ... yn berson addas i ymarfer fel optometrydd neu optegydd cyflenwi”.

Mae Rhan pump o Reolau Cyngor Optegol Cyffredinol (Cofrestru) 2005 yn datgan y bydd ymgeiswyr am gofrestrriad yn gwneud datganiad ynghylch ymchwiliadau neu ganlyniadau disgyblu neu droseddol. Ar gyfer yr unigolion hynny sy'n gwneud cais o'r tu allan i'r AEE, rhaid i chi hefyd wneud datganiad mewn perthynas â'ch iechyd corfforol neu feddyliol.

Eich cyfrifoldeb chi, fel yr ymgeisydd, yw rhoi unrhyw wybodaeth i ni am y meysydd hyn. Os na fyddwch chi'n gwneud hynny, a'i fod yn dod i'n sylw'n ddiweddarach, efallai y bydd hyn yn golygu y byddwn yn cymryd camau mewn perthynas â'ch cofrestrriad.

Datganiadau sy'n ymwneud ag iechyd (ymgeiswyr nad ydynt o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn unig)

Mae datganiadau sy'n ymwneud ag iechyd yn cyd-fynd yn fras â'r categorïau iechyd corfforol neu feddyliol (er y bydd adegau pan fydd y datganiad yn cynnwys elfennau o'r ddau).

Nid yw'r GOC yn gwneud penderfyniadau ynghylch a yw unigolion yn 'iach' neu mewn 'iechyd da', nac am anabledau. Mae anabledau a chyflyrau iechyd yn effeithio ar wahanol bobl mewn gwahanol ffyrdd ac nid oes rhestr o gyflyrau neu anabledau iechyd 'derbyniol' neu 'annerbyniol'. Mae gan y Cyngor hefyd gyfrifoldeb i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag adrannau perthnasol Deddf Cydraddoldeb 2010. Fel corff cyhoeddus, mae'r GOC yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (“y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol”). Mae'r ddyletswydd yn cwmpasu'r holl seiliau gwarchoddedig: oedran, anabled, rhywedd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred a chyfeiriadedd rhywiol. Bwriad y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yw sicrhau bod rhaid i gorff cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i dri phrif nod:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf Cydraddoldeb neu oddi tani
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu; a
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu.

Mae 'sylw dyledus' yn golygu meddwl yn ymwybodol am dri nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ystyriaeth o faterion cydraddoldeb ddylanwadu ar y penderfyniadau y mae cyrff cyhoeddus yn eu gwneud – fel sut maent yn gweithredu fel cyflogwyr; sut maent yn datblygu, yn gwerthuso ac yn adolygu polisi; sut maent yn dylunio, yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau, a sut maent yn comisiynu ac yn caffael gan eraill.

O ran ystyried datganiad a wnaed yn ymwneud ag iechyd fel rhan o gais, nid oes felly unrhyw ragdybiaeth y byddai person ag anabledd neu rywun sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor yn peri risg i'r cyhoedd wrth weithio fel optometrydd neu optegydd cyflenwi.

Mae'r GOC yn gofyn i chi wneud datganiad am eich iechyd dim ond os gall effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer ar hyn o bryd.

Os byddwch yn datgan cyflwr iechyd i ni, byddwn am wneud yn siŵr bod gennych fewnwelediad a dealltwriaeth o'ch iechyd a sut y gallai effeithio ar eich gallu i ymarfer yn ddiogel. Mae mewnwelediad a dealltwriaeth at ein dibenion ni yn golygu eich bod wedi ystyried sut y gallai eich cyflwr iechyd gyfyngu ar eich gallu i ymgymryd â rhai agweddau ar ymarfer, ac wedi cymryd camau priodol i sicrhau nad ydych yn rhoi cleifion, y cyhoedd neu chi eich hun mewn perygl.

Wrth wneud datganiad am eich iechyd i ni, dylech roi gwybodaeth i ni sy'n berthnasol i'r datganiad rydych chi'n ei wneud. Er bod ymgeiswyr yn cael eu hannog i ddarparu cymaint o wybodaeth ag sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw, gofynnwn i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol o leiaf:

- Natur y cyflwr;
- Dyddiad y diagnosis; a
- Manylion unrhyw driniaeth sydd ei hangen.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom, byddwn yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi ddarparu hyn. Os byddwn yn gwneud hyn, bydd y GOC yn cael ei arwain gan egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 bod unrhyw ddata y gofynnir amdano, sydd yn cael ei ddal a'i brosesu gennym ni yn berthnasol ac yn gymesur â'r rhesymau pam ein bod wedi gofyn amdano. Mae rhagor o wybodaeth am wybodaeth ychwanegol y gallai fod ei hangen arnom ar gael yn adran pump y ddogfen hon.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â'ch iechyd ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

Rhaid i chi roi cymaint o wybodaeth â phosibl i ni, er mwyn i ni allu asesu a allai eich cyflwr iechyd effeithio ar eich gallu i ymarfer. Bydd darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o

wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

Datganiadau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau neu ganlyniadau troseddol neu ddisgyblu (pob ymgeisydd o du allan i'r DU)

Mae'n ofynnol hefyd i ymgeiswyr ddatgan y canlynol:

- a. Unrhyw euogfarnau (gan gynnwys euogfarn gan lys milwrol) neu rybuddion a gafwyd ar Ynysoedd Prydain am drosedd, neu euogfarn yn rhywle arall am drosedd a fyddai, pe bai'n cael ei chyflawni yng Nghymru neu Loegr, yn drosedd;
- b. A ydynt wedi derbyn cynnig amodol o dan adran 302 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995 (cosb benodedig: cynnig amodol gan brocuradur ffisgal);
- c. A ydynt wedi cytuno i dalu cosb o dan adran 115A o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 (dirwy yn lle erlyniad);
- d. Os buont yn destun gorchymyn dan adran 246(2) neu (3) Deddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995 yn eu rhyddhau'n llwyr;
- e. A ydynt wedi bod yn destun penderfyniad gan gorff yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol o dan unrhyw ddeddfiad am reoleiddio'r proffesiwn ieched neu ofal cymdeithasol wedi gwneud penderfyniad i'r perwyl bod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer fel aelod o'r proffesiwn hwnnw, neu os bydd corff rheoleiddio y tu allan i'r Deyrnas Unedig wedi gwneud penderfyniad i'r un perwyl; a
- f. Maent ar hyn o bryd yn destun unrhyw ymchwiliad neu achos a allai arwain at unrhyw un o'r canlyniadau a ddisgrifir yn a-e uchod.

Gan ystyried pob un o'r meysydd hyn yn eu tro, rhoddir esboniad pellach isod.

a-d: euogfarnau, rybuddion, a chosbau a gorchmynion eraill

Rhaid i chi ddatgan ar eich cais os ydych chi erioed wedi cael euogfarn neu rybudd ac, ar ben hynny, unrhyw ganlyniadau sy'n ymwneud â llysoedd yr Alban fel y disgrifir uchod. Nid yw Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 ("y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr") yn berthnasol i bobl sy'n dymuno ymuno â chofrestr GOC. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw euogfarn neu rybudd rydych wedi'i gael, hyd yn oed os yw wedi 'disbyddu' dan y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr honno, oni bai ei fod yn rybudd euogfarn 'gwarchoddedig'. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y cewch eich cyfeirio at Adran Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor

Optegol Cyffredinol a gellid cymryd camau yn eich erbyn a allai effeithio ar eich cofrestriad parhaus.

Diogelir rhybudd rhag cael ei ddatgelu chwe blynedd ar ôl iddo gael ei dderbyn. Os oedd y troseddwr yn llai na 18 oed pan dderbyniwyd y rhybudd, yna gostyngir y cyfnod hwnnw i ddwy flynedd.

Mae euogfarn wedi'i diogelu rhag cael ei datgelu ar ôl 11 mlynedd. Os oedd y troseddwr yn llai na 18 oed pan gafwyd yr euogfarn, yna gostyngir y cyfnod hwnnw i bum mlynedd a hanner. Fodd bynnag, yn y naill achos neu'r llall, ni fydd euogfarn yn cael ei gwarchod rhag cael ei datgelu oni bai fod y troseddwr wedi cael dedfryd ddigarchar ac nad oes ganddo unrhyw euogfarnau eraill.

Ni fydd rhybudd neu euogfarn yn cael eu gwarchod rhag cael eu datgelu os yw am 'drosedd rhestredig' dan Orchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975. Mae troseddau rhestredig yn cynnwys troseddau treisgar a rhywiol difrifol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, sy'n arbennig o berthnasol i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Rhaid datgelu rhybudd neu euogfarn am 'drosedd rhestredig' i'r Cyngor Optegol Cyffredinol bob amser.

Mae rhagor o ganllawiau ar droseddau rhestredig ar gael ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service).

Wrth wneud datganiad mewn perthynas ag euogfarn neu rybudd, rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd raid i ni ofyn i chi am ragor o wybodaeth, a allai arafu hynt eich cais.

Os ydych yn ansicr ar ôl darllen y canllawiau hyn ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas ag euogfarn neu rybudd, efallai y byddwch am geisio cyngor cyfreithiol annibynnol cyn penderfynu a ddylech wneud datganiad ai peidio.

Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestriad parhaus.

e. penderfyniad gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol

Rhaid i chi hefyd ddweud wrthym a oes penderfyniad wedi'i wneud yn eich erbyn gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol neu sefydliad gofal sylfaenol yn y DU. Mae'r cyrff perthnasol fel a ganlyn:

- Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol • Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol • Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol • Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Cyngor Osteopathig Cyffredinol • Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon
- Sefydliadau gofal sylfaenol neu Fyrddau Iechyd

Hefyd, dylech ddweud wrthym a oes penderfyniad wedi'i wneud yn eich erbyn gan un o'r cyrff a ragflaenodd rhai uchod (er enghraifft, y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol neu Gymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr).

Os ydych chi, neu os ydych chi erioed wedi cael eich cofrestru â chorff rheoleiddio, ac wedi cael sancsiwn sy'n ymwneud â'ch addasrwydd i ymarfer, neu os canfuwyd yr amharwyd ar eich addasrwydd i ymarfer, rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn.

Hefyd, os ydych chi wedi bod yn destun sancsiwn gan sefydliad gofal sylfaenol y GIG (er enghraifft, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol neu Fwrdd Iechyd Lleol), naill ai fel cyflogai neu ddarparwr gwasanaeth, rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn.

Hefyd, os ydych chi wedi cael dyfarniad sy'n ymwneud â'ch addasrwydd i ymarfer gan gorff rheoleiddio y tu allan i'r DU, rhaid i chi ddweud wrthym am hyn.

Wrth wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad gan gorff rheoleiddio, darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl, gan gynnwys y canlyniad neu'r sancsiwn a osodwyd a'r amgylchiadau a arweiniodd at y dyfarniad. Bydd darparu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

f. ymchwiliadau cyfredol gan yr heddlu neu gorff rheoleiddio

Rhaid i chi ddatgan ar eich cais os ydych chi'n destun ymchwiliad gan yr heddlu ar hyn o bryd am drosedd a allai arwain at euogfarn neu rybudd. Os ydych chi'n destun ymchwiliad gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol (gweler yr adran

flaenorol), neu gan sefydliad gofal sylfaenol, rhaid i chi hefyd ddweud wrthym am hyn.

Os ydych chi'n destun ymchwiliad gan heddlu y tu allan i'r DU, am drosedd a allai arwain at euogfarn yng Nghymru neu Loegr, rhaid i chi ddatgan hyn. Hefyd, os ydych chi'n destun ymchwiliad gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol y tu allan i'r DU, rhaid i chi hefyd roi gwybod i ni am hyn.

Wrth wneud datganiad mewn perthynas ag ymchwiliadau cyfredol, darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl, gan gynnwys gwybodaeth am yr amgylchiadau a arweiniodd at yr ymchwiliad. Bydd darparu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais.

Mewn achosion lle byddwn yn derbyn cais sy'n cynnwys datganiad am ymchwiliad presennol, mae'n annhebygol y bydd hyn yn eich atal rhag cael eich cofrestru. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar natur a difrifoldeb yr honiadau yn eich erbyn yr ymchwiliad iddynt. Os byddwn yn penderfynu eich cofrestru, byddwn yn gofyn i chi roi gwybod i ni am ganlyniad yr ymchwiliad. Os bydd y canlyniad yn arwain at gosb i chi, neu os oes gennym bryderon am eich addasrwydd i ymarfer, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y GOC (os ydych wedi cofrestru ar y pryd); byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

Fel yn achos yr holl wybodaeth y gofynnwn amdani ac yr ydym yn ei dal amdano, bydd y GOC yn cael ei arwain gan egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 bod unrhyw ddata y gofynnir amdano, sydd yn cael ei ddal a'i brosesu gennym ni yn berthnasol ac yn gymesur â'r rhesymau pam ein bod wedi gofyn amdano.

Gwybodaeth arall

Yn ogystal â'r datganiadau a ddisgrifir uchod y mae'n ofynnol i chi eu gwneud, rhaid i unrhyw ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â [Chod Ymddygiad GOC](#). (ADD LINK). Mae'r Cod yn disgrifio sut mae'r GOC yn disgwyl i'r rheini sydd ar ein cofrestr ymddwyn, er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd. Dylech wneud eich cais gan gyfeirio at y Cod a datgan unrhyw faterion i'r GOC ar eich cais a allai effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer. Gall y rhain gynnwys penderfyniad gwahardd cyfredol neu flaenorol a wnaed gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu Disclosure Scotland. Bydd darparu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais. Os na fyddwch yn rhoi

gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestriad parhaus.

Mae'r materion **nad oes** angen i ni gael gwybod amdanynt yn cynnwys:

- Cael eich datgan yn fethdalwr. Dim ond os gall amgylchiadau'r methdaliad effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer y dylid datgan hyn; ac
- Os ydych chi'n destun hawliad esgeulustod meddygol. Rydym yn cydnabod y gallai claf fod wedi gwneud hawliad yn eich erbyn mewn perthynas ag esgeulustod clinigol. Tra bod hyn yn cael sylw, nid oes angen i chi ddweud wrthym am hyn. Fodd bynnag, os gallai amgylchiadau'r hawliad effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer, dylech ddweud wrthym am hyn.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

Adran tri: gwybodaeth i'r rhai sy'n gwneud cais am adferiad i gofrestr GOC

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am y broses ar gyfer adferiad i gofrestr GOC a'r wybodaeth y mae angen i chi ei rhoi i ni er mwyn i ni allu penderfynu caniatáu eich cofrestriad ai peidio.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses adfer, gan gynnwys ffurflenni adfer a sut mae ein ffioedd wedi'u strwythuro, ar gael ar ein gwefan yn:

http://www.optical.org/en/our_work/Registration/index.cfm

Ymgeiswyr unigol sydd wedi cymhwyso'n llawn

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno ymarfer fel optometrydd neu optegydd cyflenwi yn y DU fod wedi cofrestru â'r Cyngor Optegol Cyffredinol. Os ydych chi wedi cofrestru gyda ni o'r blaen ac am unrhyw reswm wedi caniatáu i'ch cofrestriad ddod i ben, neu ein bod wedi eich tynnu oddi ar y gofrestr, rhaid i chi adfer i'r gofrestr i barhau i ymarfer. Os byddwch yn parhau i ymarfer fel optometrydd neu optegydd cyflenwi pan nad ydych wedi cofrestru, rydych yn cyflawni trosedd a gallech gael eich erlyn.

Er mwyn i'r GOC eich adfer ar y gofrestr, rhaid i chi lenwi cais am adferiad. Fel rhan o'r cais hwn, bydd gofyn i chi roi gwybodaeth i ni, gan gynnwys:

- Eich rhif cofrestru GOC blaenorol, a dyddiadau eich cyfnod cofrestru blaenorol;
- Enwau a chyfeiriadau lle rydych yn ymarfer, yn ogystal â chyfeiriad cyswllt;
- Ffotograff ohonoch, wedi'i ardystio gan rywun sydd wedi eich adnabod ers o leiaf ddwy flynedd (ac nad yw'n berthynas);
- Datganiad eich bod wedi cyflawni'r nifer gofynnol o bwyntiau Addysg a Hyfforddiant Parhaus (CET) er mwyn cael eich adfer i'r gofrestr;
- Gwybodaeth am eich polisi yswiriant; a
- **Datganiad** gennych chi eich bod yn berson addas i ymarfer, neu wybodaeth am gyflyrau iechyd, neu ymchwiliadau troseddol neu ddisgyblu, y bydd angen i ni eu hystyried cyn caniatáu eich cofrestriad. Trafodir hyn yn fanylach isod.

Bydd yr holl wybodaeth a ofynnwn gennych chi yn ein helpu i sicrhau:

- Mai chi ydych chi;
- Eich bod yn bodloni ein safonau ar gyfer addasrwydd i ymarfer;
- Dydych chi ddim wedi gwneud unrhyw beth tra nad oeddech yn gofrestredig a fyddai'n atal eich adfer ar y gofrestr; a
- Mae gennym eich manylion cyswllt.

Datganiad addasrwydd i ymarfer

Mae Adran 8 Deddf Optegwyr 1989 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan "bydd gan berson hawl i gael ei enw ar y gofrestr briodol os yw'n bodloni'r Cyngor ei fod ... yn berson addas i ymarfer fel optometrydd neu optegydd cyflenwi".

Mae Rhan pump o Reolau Cyngor Optegol Cyffredinol (Cofrestru) 2005 yn datgan y bydd ymgeiswyr am gofrestriad yn gwneud datganiad ynghylch ymchwiliadau neu ganlyniadau disgyblu neu droseddol, ac mewn perthynas â'u hiechyd corfforol neu feddyliol.

Eich cyfrifoldeb chi, fel yr ymgeisydd, yw rhoi unrhyw wybodaeth i ni am y meysydd hyn. Os na fyddwch chi'n gwneud hynny, a'i fod yn dod i'n sylw'n ddiweddarach, efallai y bydd hyn yn golygu y byddwn yn cymryd camau mewn perthynas â'ch cofrestriad.

Os cafodd eich enw ei ddileu o gofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol yn dilyn penderfyniad Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol, bydd yn rhaid i'ch cais am adferiad gael ei ystyried gan y Pwyllgor hwnnw. Os yw hyn

yn berthnasol i chi, pan fyddwn yn derbyn eich cais, bydd tîm Addasrwydd i Ymarfer GOC yn delio ag ef, a fydd yn cysylltu â chi'n uniongyrchol ynghylch eich cais.

Datganiadau sy'n ymwneud ag iechyd

Mae datganiadau sy'n ymwneud ag iechyd yn cyd-fynd yn fras â'r categorïau iechyd corfforol neu feddyliol (er y bydd adegau pan fydd y datganiad yn cynnwys elfennau o'r ddau).

Nid yw'r GOC yn gwneud penderfyniadau ynghylch a yw unigolion yn 'iach' neu mewn 'iechyd da', nac am anabledau. Mae anabledau a chyflyrau iechyd yn effeithio ar wahanol bobl mewn gwahanol ffyrdd ac nid oes rhestr o gyflyrau neu anabledau iechyd 'derbyniol' neu 'annerbyniol'. Mae gan y Cyngor hefyd gyfrifoldeb i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag adrannau perthnasol Deddf Cydraddoldeb 2010. Fel corff cyhoeddus, mae'r GOC yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ("y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol"). Mae'r ddyletswydd yn cwmpasu'r holl seiliau gwarchoddedig: oedran, anabled, rhywedd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred a chyfeiriadedd rhywiol. Bwriad y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yw sicrhau bod rhaid i gorff cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i dri phrif nod:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf Cydraddoldeb neu oddi tani
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu; a
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu.

Mae 'sylw dyledus' yn golygu meddwl yn ymwybodol am dri nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ystyriaeth o faterion cydraddoldeb ddylanwadu ar y penderfyniadau y mae cyrff cyhoeddus yn eu gwneud – fel sut maent yn gweithredu fel cyflogwyr; sut maent yn datblygu, yn gwerthuso ac yn adolygu polisi; sut maent yn dylunio, yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau, a sut maent yn comisiynu ac yn caffael gan eraill.

O ran ystyried datganiad a wnaed yn ymwneud ag iechyd fel rhan o gais, nid oes felly unrhyw ragdybiaeth y byddai person ag anabled neu rywun sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor yn peri risg i'r cyhoedd wrth weithio fel optometrydd neu optegydd cyflenwi.

Mae'r GOC yn gofyn i chi wneud datganiad am eich iechyd dim ond os gall effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer ar hyn o bryd. Os byddwch yn datgan cyflwr iechyd i ni, byddwn am wneud yn siŵr bod gennych fewnwelediad a dealltwriaeth o'ch iechyd a sut y gallai effeithio ar eich gallu i ymarfer yn ddiogel. Mae mewnwelediad a dealltwriaeth at ein dibenion ni yn golygu eich bod wedi

ystyried sut y gallai eich cyflwr iechyd gyfyngu ar eich gallu i ymgymryd â rhai agweddau ar ymarfer, ac wedi cymryd camau priodol i sicrhau nad ydych yn rhoi cleifion, y cyhoedd neu chi eich hun mewn perygl.

Wrth wneud datganiad am eich iechyd i ni, dylech roi gwybodaeth i ni sy'n berthnasol i'r datganiad rydych chi'n ei wneud. Er bod ymgeiswyr yn cael eu hannog i ddarparu cymaint o wybodaeth ag sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw, gofynnwn i chi ddarparu'r wybodaeth ganlyinol o leiaf:

- Natur y cyflwr;
- Dyddiad y diagnosis; a
- Manylion unrhyw driniaeth sydd ei hangen.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom, byddwn yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi ddarparu hyn. Os byddwn yn gwneud hyn, bydd y GOC yn cael ei arwain gan egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 bod unrhyw ddata y gofynnir amdano, sydd yn cael ei ddal a'i brosesu gennym ni yn berthnasol ac yn gymesur â'r rhesymau pam ein bod wedi gofyn amdano. Mae rhagor o wybodaeth am wybodaeth ychwanegol y gallai fod ei hangen arnom ar gael yn adran pump y ddogfen hon.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â'ch iechyd ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

Rhaid i chi roi cymaint o wybodaeth â phosibl i ni, er mwyn i ni allu asesu a allai eich cyflwr iechyd effeithio ar eich gallu i ymarfer. Bydd darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

Datganiadau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau neu ganlyniadau troseddol neu ddisgyblu

Mae'n ofynnol hefyd i ymgeiswyr ddatgan y canlynol:

- a. Unrhyw euogfarnau (gan gynnwys euogfarn gan lys milwrol) neu rybuddion a gafwyd ar Ynysoedd Prydain am drosedd, neu euogfarn yn rhywle arall am drosedd a fyddai, pe bai'n cael ei chyflawni yng Nghymru neu Loegr, yn drosedd;
- b. A ydynt wedi derbyn cynnig amodol o dan adran 302 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995 (cosb benodedig: cynnig amodol gan brocuradur ffisgal);

- c. A ydynt wedi cytuno i dalu cosb o dan adran 115A o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 (dirwy yn lle erlyniad);
- d. Os buont yn destun gorchymyn dan adran 246(2) neu (3) Deddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995 yn eu rhyddhau'n llwyr;
- e. A ydynt wedi bod yn destun penderfyniad gan gorff yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol o dan unrhyw ddeddfiad am reoleiddio'r proffesiwn iechyd neu ofal cymdeithasol wedi gwneud penderfyniad i'r perwyl bod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer fel aelod o'r proffesiwn hwnnw, neu os bydd corff rheoleiddio y tu allan i'r Deyrnas Unedig wedi gwneud penderfyniad i'r un perwyl; a
- f. Maent ar hyn o bryd yn destun unrhyw ymchwiliad neu achos a allai arwain at unrhyw un o'r canlyniadau a ddisgrifir yn a-e uchod.

Gan ystyried pob un o'r meysydd hyn yn eu tro, rhoddir esboniad pellach isod.

a-d: euogfarnau, rhybuddion, a chosbau a gorchmynion eraill

Rhaid i chi ddatgan ar eich cais os ydych chi erioed wedi cael euogfarn neu rybudd ac, ar ben hynny, unrhyw ganlyniadau sy'n ymwneud â llysoedd yr Alban fel y disgrifir uchod. Nid yw Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 ("y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr") yn berthnasol i bobl sy'n dymuno ymuno â chofrestr GOC. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw euogfarn neu rybudd rydych wedi'i gael, hyd yn oed os yw wedi 'disbyddu' dan y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr honno, oni bai ei fod yn rhybudd euogfarn 'gwarchodedig'. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y cewch eich cyfeirio at Adran Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol a gellid cymryd camau yn eich erbyn a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

Diogelir rhybudd rhag cael ei ddatgelu chwe blynedd ar ôl iddo gael ei dderbyn. Os oedd y troseddwr yn llai na 18 oed pan dderbyniwyd y rhybudd, yna gostyngir y cyfnod hwnnw i ddwy flynedd.

Mae euogfarn wedi'i diogelu rhag cael ei datgelu ar ôl 11 mlynedd. Os oedd y troseddwr yn llai na 18 oed pan gafwyd yr euogfarn, yna gostyngir y cyfnod hwnnw i bum mlynedd a hanner. Fodd bynnag, yn y naill achos neu'r llall, ni fydd euogfarn yn cael ei gwarchod rhag cael ei datgelu oni bai fod y troseddwr wedi cael dedfryd ddigarchar ac nad oes ganddo unrhyw euogfarnau eraill.

Ni fydd rhybudd neu euogfarn yn cael eu gwarchod rhag cael eu datgelu os yw am 'drosedd rhestredig' dan Orchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975. Mae troseddau rhestredig yn cynnwys troseddau treisgar a rhywiol difrifol,

ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, sy'n arbennig o berthnasol i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Rhaid datgelu rhybudd neu euogfarn am 'drosedd rhestredig' i'r Cyngor Optegol Cyffredinol bob amser.

Mae rhagor o ganllawiau ar droseddau rhestredig ar gael ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service).

Wrth wneud datganiad mewn perthynas ag euogfarn neu rybudd, rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd raid i ni ofyn i chi am ragor o wybodaeth, a allai arafu hynt eich cais.

Os ydych yn ansicr ar ôl darllen y canllawiau hyn ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas ag euogfarn neu rybudd, efallai y byddwch am geisio cyngor cyfreithiol annibynnol cyn penderfynu a ddylech wneud datganiad ai peidio. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

e. penderfyniad gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol

Rhaid i chi hefyd ddweud wrthym a oes penderfyniad wedi'i wneud yn eich erbyn gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol neu sefydliad gofal sylfaenol yn y DU. Mae'r cyrff perthnasol fel a ganlyn:

- Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol • Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol • Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol • Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Cyngor Osteopathig Cyffredinol • Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon
- Sefydliadau gofal sylfaenol neu Fyrddau Iechyd

Hefyd, dylech ddweud wrthym a oes penderfyniad wedi'i wneud yn eich erbyn gan un o'r cyrff a ragflaenodd rhai uchod (er enghraifft, y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol neu Gymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr).

Os ydych chi, neu os ydych chi erioed wedi cael eich cofrestru â chorff rheoleiddio, ac wedi cael sancsiwn sy'n ymwneud â'ch addasrwydd i ymarfer, neu os canfuwyd yr amharwyd ar eich addasrwydd i ymarfer, rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn.

Hefyd, os ydych chi wedi bod yn destun sancsiwn gan sefydliad gofal sylfaenol y GIG (er enghraifft, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol neu Fwrdd Iechyd Lleol), naill ai fel cyflogai neu ddarparwr gwasanaeth, rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn.

Hefyd, os ydych chi wedi cael dyfarniad sy'n ymwneud â'ch addasrwydd i ymarfer gan gorff rheoleiddio y tu allan i'r DU, rhaid i chi ddweud wrthym am hyn.

Os ydych chi wedi cael rhybudd gan Bwyllgor Ymchwilio'r GOC, nid oes angen i chi ddatgan hyn wrth wneud cais am adferiad.

Wrth wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad gan gorff rheoleiddio, darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl, gan gynnwys y canlyniad neu'r sancsiwn a osodwyd a'r amgylchiadau a arweiniodd at y dyfarniad. Bydd darparu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addaswydd i Ymarfer y Cyngor; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestriad parhaus.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

f. ymchwiliadau cyfredol gan yr heddlu neu gorff rheoleiddio

Rhaid i chi ddatgan ar eich cais os ydych chi'n destun ymchwiliad gan yr heddlu ar hyn o bryd am drosedd a allai arwain at euogfarn neu rybudd. Os ydych chi'n destun ymchwiliad gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol (gweler yr adran flaenorol), neu gan sefydliad gofal sylfaenol, rhaid i chi hefyd ddweud wrthym am hyn.

Os ydych chi'n destun ymchwiliad gan heddlu y tu allan i'r DU, am drosedd a allai arwain at euogfarn yng Nghymru neu Loegr, rhaid i chi ddatgan hyn. Hefyd, os ydych chi'n destun ymchwiliad gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol y tu allan i'r DU, rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn hefyd.

Wrth wneud datganiad mewn perthynas ag ymchwiliadau cyfredol, darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl, gan gynnwys gwybodaeth am yr amgylchiadau a arweiniodd at yr ymchwiliad. Bydd darparu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais.

Mewn achosion lle byddwn yn derbyn cais sy'n cynnwys datganiad am ymchwiliad presennol, mae'n annhebygol y bydd hyn yn eich atal rhag cael eich cofrestru. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar natur a difrifoldeb yr honiadau yn eich erbyn yr ymchwilir iddynt. Os byddwn yn penderfynu eich cofrestru, byddwn yn gofyn i chi roi gwybod i ni am ganlyniad yr ymchwiliad. Os bydd y canlyniad yn arwain at roi cosb i chi, neu os oes gennym bryderon am eich addaswydd i ymarfer, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addaswydd i Ymarfer y GOC; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestriad parhaus.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y

byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

Fel yn achos yr holl wybodaeth y gofynnwn amdani ac yr ydym yn ei dal amdano, bydd y GOC yn cael ei arwain gan egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 bod unrhyw ddata y gofynnir amdano, sydd yn cael ei ddal a'i brosesu gennym ni yn berthnasol ac yn gymesur â'r rhesymau pam ein bod wedi gofyn amdano.

Gwybodaeth arall

Yn ogystal â'r datganiadau a ddisgrifir uchod y mae'n ofynnol i chi eu gwneud, rhaid i unrhyw ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad GOC. Mae'r Cod yn disgrifio sut mae'r GOC yn disgwyl i'r rheini sydd ar ein cofrestr ymddwyn, er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd. Dylech wneud eich cais gan gyfeirio at y Cod a datgan unrhyw faterion i'r GOC ar eich cais a allai effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer. Gall y rhain gynnwys penderfyniad gwahardd cyfredol neu flaenrol a wnaed gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu Disclosure Scotland. Bydd darparu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

Mae'r materion **nad oes** angen i ni gael gwybod amdanynt yn cynnwys:

- Cael eich datgan yn fethdalwr. Dim ond os gall amgylchiadau'r methdaliad effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer y dylid datgan hyn; ac
- Os ydych chi'n destun hawliad esgeulustod meddygol. Rydym yn cydnabod y gallai claf fod wedi gwneud hawliad yn eich erbyn mewn perthynas ag esgeulustod clinigol. Tra bod hyn yn cael sylw, nid oes angen i chi ddweud wrthym am hyn. Os ydych yn credu y gallai amgylchiadau'r hawliad effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer, dylech ddweud wrthym am hyn.

Gofynnwn i chi hefyd ddarparu'r wybodaeth ganlynol ynghylch eich cyfnod o beidio â bod ar y gofrestr:

- Y rheswm pam na wnaethoch adnewyddu eich cofrestrriad, a pham eich bod yn ceisio cael eich adfer i'r gofrestr;
- A ydych chi wedi cynnal profion golwg; gosod lensys cyffwrdd; cyflenwi cyfarpar optegol i unigolion sy'n ddall, yn rhannol ddall neu o dan 16 oed; a
- Manylion am y pwyntiau CET rydych chi wedi'u cyflawni ar gyfer eich adferiad.

Mae rhagor o wybodaeth am gynllun CET y GOC, a'ch cyfrifoldebau o dan y cynllun, ar gael ar ein gwefan:

http://www.optical.org/en/our_work/Education/CET/index.cfm

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

Ymgeiswyr unigol sydd wedi cymhwyso'n llawn na chymhwysodd yn y DU

Os ydych chi'n dymuno cael eich adfer i gofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol, ac nad dych wedi cymhwyso yn y DU, mae'r broses adfer yr un fath â'r broses ar gyfer ymgeiswyr unigol sydd wedi cymhwyso yn y DU. Gweler yr adran '**Ymgeiswyr unigol sydd wedi cymhwyso'n llawn**' uchod, sy'n rhoi gwybodaeth am y datganiadau y mae'n ofynnol i chi eu gwneud.

Adran pedwar: gwybodaeth i'r rheini sy'n gwneud cais i aros ar gofrestr GOC

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am y broses o adnewyddu eich cofrestriad gyda GOC a'r wybodaeth y mae angen i chi ei rhoi i ni er mwyn i ni allu penderfynu parhau i ganiatáu eich cofrestriad ai peidio.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses gofrestru, gan gynnwys ffurflenni cofrestru a sut mae ein ffoedd wedi'u strwythuro, ar gael ar ein gwefan yn:

http://www.optical.org/en/our_work/Registration/index.cfm

Ymgeiswyr unigol sydd wedi cymhwyso'n llawn

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno ymarfer fel optometrydd neu optegydd cyflenwi yn y DU gofrestru â'r GOC. Mae'n ofynnol i chi adnewyddu eich cofrestriad gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol bob blwyddyn yr ydych yn ymarfer neu'n cynnal gweithgareddau a gedwir i'r rhai sydd ar gofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol. **Cadw** cofrestriad yw'r enw ar y broses adnewyddu hon.

Er mwyn i'r GOC adnewyddu eich cofrestriad, rhaid i chi lenwi cais i gadw eich cofrestriad.

Fel rhan o'r cais hwn, bydd gofyn i chi gadarnhau bod y wybodaeth yr ydym yn ei dal amdanoch yn gywir, a diweddar unrhyw wybodaeth lle bo angen.

Mae'r manylion cadarnhau y gofynnir i chi eu darparu yn cynnwys:

- Enwau a chyfeiriadau lle rydych yn ymarfer, yn ogystal â chyfeiriad cyswllt;
- Gwybodaeth am eich polisi yswiriant; a
- **Datganiad** gennych chi eich bod yn berson addas i ymarfer, neu wybodaeth am gyflyrau iechyd, neu ymchwiliadau troseddol neu ddisgyblu, y bydd angen i ni eu hystyried cyn caniatáu eich cofrestriad. Trafodir hyn yn fanylach.

Bydd yr holl wybodaeth a ofynnwn gennych chi yn ein helpu i sicrhau:

- Mai chi ydych chi;
- Eich bod yn parhau i fodloni ein safonau ar gyfer addasrwydd i ymarfer; a
- Mae gennym eich manylion cyswllt diweddaraf.

Y cyfnod cadw ar gyfer cofrestreion sydd wedi cymhwyso'n llawn yw o ddechrau mis Ionawr i 31 Mawrth bob blwyddyn. Rhaid i chi wneud eich cais (a thalu'r ffi cadw) erbyn

15 Mawrth bob blwyddyn, neu fel arall byddwch yn gorfod talu ffi gwneud cais hwyr. Mar gwybodaeth am ffioedd GOC ar gael ar ein gwefan: https://www.optical.org/en/our_work/Registration/index.cfm

Gallwch gwblhau eich cais i gadw eich cofrestrriad drwy fewngofnodi i adran MyGOC gwefan GOC.

Mae rhagor o wybodaeth am gadw eich cofrestrriad ar gael ar ein gwefan hefyd yn: https://www.optical.org/en/our_work/Registration/Renewing_your_registration/index.cfm

Datganiad addasrwydd i ymarfer

Mae Adran 8 Deddf Optegwyr 1989 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan “bydd gan berson hawl i gael ei enw ar y gofrestr briodol os yw'n bodloni'r Cyngor ei fod ... yn berson addas i ymarfer fel optometrydd neu optegydd cyflenwi”.

Mae Rhan pump (adrannau 17 i 20) Rheolau Cyngor Optegol Cyffredinol (Cofrestru) 2005 yn ymwneud â'r gofynion cadw cofrestrriad. Mae rheol 20 yn datgan y “Caiff y Cofrestrydd dynnu enw'r cofrestrai oddi ar y gofrestr briodol os nad yw'n fodlon bod gan y cofrestrai hawl i gael ei gofrestru o dan adran 8 ...”

Eich cyfrifoldeb chi, fel yr ymgeisydd, yw rhoi unrhyw wybodaeth i ni am eich addasrwydd parhaus i ymarfer. Os na fyddwch yn gwneud hynny, a bod gwybodaeth y dylech fod wedi'i rhoi i ni'n ddiweddarach yn dod i'n sylw, gall hyn olygu y byddwn yn cymryd camau mewn perthynas â'ch cofrestrriad. Yn yr un modd â cheisiadau ar gyfer cofrestru neu adfer, mae'r mathau o wybodaeth y mae angen i chi eu darparu yn cael eu trafod isod.

Datganiadau sy'n ymwneud ag iechyd

Mae datganiadau sy'n ymwneud ag iechyd yn cyd-fynd yn fras â'r categorïau iechyd corfforol neu feddyliol (er y bydd adegau pan fydd y datganiad yn cynnwys elfennau o'r ddau).

Nid yw'r GOC yn gwneud penderfyniadau ynghylch a yw unigolion yn 'iach' neu mewn 'iechyd da', nac am anabledau. Mae anabledau a chyflyrau iechyd yn effeithio ar wahanol bobl mewn gwahanol ffyrdd ac nid oes rhestr o gyflyrau neu anabledau iechyd 'derbyniol' neu 'annerbyniol'. Mae gan y Cyngor hefyd gyfrifoldeb i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag adrannau perthnasol Deddf Cydraddoldeb 2010. Fel corff cyhoeddus, mae'r GOC yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (“y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol”). Mae'r ddyletswydd yn cwmpasu'r holl seiliau gwarchoddedig: oedran, anabled, rhywedd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred a chyfeiriadedd rhywiol. Bwriad y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yw sicrhau bod rhaid i gorff cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i dri phrif nod:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf Cydraddoldeb neu oddi tani
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu; a
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu.

Mae 'sylw dyledus' yn golygu meddwl yn ymwybodol am dri nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ystyriaeth o faterion cydraddoldeb ddylanwadu ar y penderfyniadau y mae cyrff cyhoeddus yn eu gwneud – fel sut maent yn gweithredu fel cyflogwyr; sut maent yn datblygu, yn gwerthuso ac yn adolygu polisi; sut maent yn dylunio, yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau, a sut maent yn comisiynu ac yn caffael gan eraill.

O ran ystyried datganiad a wnaed yn ymwneud ag iechyd fel rhan o gais, nid oes felly unrhyw ragdybiaeth y byddai person ag anabledd neu rywun sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor yn peri risg i'r cyhoedd wrth weithio fel optometrydd neu optegydd cyflenwi.

Mae'r GOC yn gofyn i chi wneud datganiad am eich iechyd dim ond os gall effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer ar hyn o bryd. Os byddwch yn datgan cyflwr iechyd i ni, byddwn am wneud yn siŵr bod gennych fewnwelediad a dealltwriaeth o'ch iechyd a sut y gallai effeithio ar eich gallu i ymarfer yn ddiogel. Mae mewnwelediad a dealltwriaeth at ein dibenion ni yn golygu eich bod wedi ystyried sut y gallai eich cyflwr iechyd gyfyngu ar eich gallu i ymgymryd â rhai agweddau ar ymarfer, ac wedi cymryd camau priodol i sicrhau nad ydych yn rhoi cleifion, y cyhoedd neu chi eich hun mewn perygl.

Wrth wneud datganiad am eich iechyd i ni, dylech roi gwybodaeth i ni sy'n berthnasol i'r datganiad rydych chi'n ei wneud. Er bod ymgeiswyr yn cael eu hannog i ddarparu cymaint o wybodaeth ag sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw, gofynnwn i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol o leiaf:

- Natur y cyflwr;
- Dyddiad y diagnosis; a
- Manylion unrhyw driniaeth sydd ei hangen.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom, byddwn yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi ddarparu hyn. Os byddwn yn gwneud hyn, bydd y GOC yn cael ei arwain gan egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 bod unrhyw ddata y gofynnir amdano, sydd yn cael ei ddal a'i brosesu gennym ni yn berthnasol ac yn gymesur â'r rhesymau pam ein bod wedi gofyn amdano. Mae rhagor o wybodaeth am wybodaeth ychwanegol y gallai fod ei hangen arnom ar gael yn adran pump y ddogfen hon.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â'ch iechyd ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y

byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

Rhaid i chi roi cymaint o wybodaeth â phosibl i ni, er mwyn i ni allu asesu a allai eich cyflwr iechyd effeithio ar eich gallu i ymarfer. Bydd darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

Datganiadau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau neu ganlyniadau troseddol neu ddisgyblu

Mae'n ofynnol hefyd i ymgeiswyr ddatgan y canlynol:

- a. Unrhyw euogfarnau (gan gynnwys euogfarn gan lys milwrol) neu rybuddion a gafwyd ar Ynysoedd Prydain am drosedd, neu euogfarn yn rhywle arall am drosedd a fyddai, pe bai'n cael ei chyflawni yng Nghymru neu Loegr, yn drosedd;
- b. A ydynt wedi derbyn cynnig amodol o dan adran 302 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995 (cosb benodedig: cynnig amodol gan brocuradur ffisgal);
- c. A ydynt wedi cytuno i dalu cosb o dan adran 115A o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 (dirwy yn lle erlyniad);
- d. Os buont yn destun gorchymyn dan adran 246(2) neu (3) Deddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995 yn eu rhyddhau'n llwyr;
- e. A ydynt wedi bod yn destun penderfyniad gan gorff yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol o dan unrhyw ddeddfiad am reoleiddio'r proffesiwn ieched neu ofal cymdeithasol wedi gwneud penderfyniad i'r perwyl bod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer fel aelod o'r proffesiwn hwnnw, neu os bydd corff rheoleiddio y tu allan i'r Deyrnas Unedig wedi gwneud penderfyniad i'r un perwyl; a
- f. Maent ar hyn o bryd yn destun unrhyw ymchwiliad neu achos a allai arwain at unrhyw un o'r canlyniadau a ddisgrifir yn a-e uchod.

Gan ystyried pob un o'r meysydd hyn yn eu tro, rhoddir esboniad pellach isod.

a-d: euogfarnau, rhybuddion, a chosbau a gorchmynion eraill

Rhaid i chi ddatgan ar eich cais os ydych chi erioed wedi cael euogfarn neu rybudd ac, ar ben hynny, unrhyw ganlyniadau sy'n ymwneud â llysoedd yr Alban fel y disgrifir uchod. Nid yw Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 ("y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr") yn berthnasol i bobl sy'n dymuno ymuno â chofrestr GOC. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw euogfarn neu rybudd rydych wedi'i gael, hyd yn oed os yw wedi 'disbyddu' dan y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr honno, oni bai ei fod yn rhybudd euogfarn 'gwarchodedig'. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y cewch eich cyfeirio at Adran Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol a gellid cymryd camau yn eich erbyn a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

Diogelir rhybudd rhag cael ei ddatgelu chwe blynedd ar ôl iddo gael ei dderbyn. Os oedd y troseddwr yn llai na 18 oed pan dderbyniwyd y rhybudd, yna gostyngir y cyfnod hwnnw i ddwy flynedd.

Mae euogfarn wedi'i diogelu rhag cael ei datgelu ar ôl 11 mlynedd. Os oedd y troseddwr yn llai na 18 oed pan gafwyd yr euogfarn, yna gostyngir y cyfnod hwnnw i bum mlynedd a hanner.

Fodd bynnag, yn y naill achos neu'r llall, ni fydd euogfarn yn cael ei gwarchod rhag cael ei datgelu oni bai fod y troseddwr wedi cael dedfryd ddigarchar ac nad oes ganddo unrhyw euogfarnau eraill.

Ni fydd rhybudd neu euogfarn yn cael eu gwarchod rhag cael eu datgelu os yw am 'drosedd rhestredig' dan Orchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975. Mae troseddau rhestredig yn cynnwys troseddau treisgar a rhywiol difrifol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, sy'n arbennig o berthnasol i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Rhaid datgelu rhybudd neu euogfarn am 'drosedd rhestredig' i'r Cyngor Optegol Cyffredinol bob amser.

Mae rhagor o ganllawiau ar droseddau rhestredig ar gael ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service).

Wrth wneud datganiad mewn perthynas ag euogfarn neu rybudd, rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd raid i ni ofyn i chi am ragor o wybodaeth, a allai arafu hynt eich cais.

Os ydych yn ansicr ar ôl darllen y canllawiau hyn ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas ag euogfarn neu rybudd, efallai y byddwch am geisio cyngor cyfreithiol annibynnol cyn penderfynu a ddylech wneud datganiad ai peidio.

Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

e. penderfyniad gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol

Rhaid i chi hefyd ddweud wrthym a oes penderfyniad wedi'i wneud yn eich erbyn gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol neu sefydliad gofal sylfaenol yn y DU. Mae'r cyrff perthnasol fel a ganlyn:

- Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol • Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol • Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol • Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Cyngor Osteopathig Cyffredinol • Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon
- Sefydliadau gofal sylfaenol neu Fyrddau Iechyd

Hefyd, dylech ddweud wrthym a oes penderfyniad wedi'i wneud yn eich erbyn gan un o'r cyrff a ragflaenodd rhai uchod (er enghraifft, y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol neu Gymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr).

Os ydych chi, neu os ydych chi erioed wedi cael eich cofrestru â chorff rheoleiddio, ac wedi cael sancsiwn sy'n ymwneud â'ch addasrwydd i ymarfer, neu os canfuwyd yr amharwyd ar eich addasrwydd i ymarfer, rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn. Hefyd, os ydych chi wedi bod yn destun sancsiwn gan sefydliad gofal sylfaenol y GIG (er enghraifft, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol neu Fwrdd Iechyd Lleol), naill ai fel cyflogai neu ddarparwr gwasanaeth, rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn. Hefyd, os ydych chi wedi cael dyfarniad sy'n ymwneud â'ch addasrwydd i ymarfer gan gorff rheoleiddio y tu allan i'r DU, rhaid i chi ddweud wrthym am hyn.

Wrth wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad gan gorff rheoleiddio, darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl, gan gynnwys y canlyniad neu'r sancsiwn a osodwyd a'r amgylchiadau a arweiniodd at y dyfarniad. Bydd darparu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

Os ydych chi wedi cael rhybudd gan Bwyllgor Ymchwilio'r GOC, nid oes angen i chi ddatgan hyn wrth wneud cais i gadw cofrestrriad.

Os ydych chi wedi bod yn destun achos addasrwydd i ymarfer gan y Cyngor Optegol Cyffredinol o'r blaen, ond bod y mater wedi'i ddatrys, nid oes angen i chi ddatgan hyn oni bai ein bod wedi dweud wrthyf am wneud hynny o'r blaen.

Dylech wneud datganiad a allai effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer ar yr adeg y bydd yn digwydd. Os daw i'ch sylw eich bod wedi methu â datgan rhywbeth i'r GOC yr ydych bellach yn credu y dylech fod wedi'i ddatgan, dylech ddatgan hyn yn y cyfnod cadw cofrestrriad nesaf. Wrth wneud y datganiad hwn, dylech roi esboniad o amgylchiadau'r trosedd a hefyd y rheswm pam eich bod wedi methu â'i ddatgan yn flaenorol.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

f. ymchwiliadau cyfredol gan yr heddlu neu gorff rheoleiddio

Rhaid i chi ddatgan ar eich cais os ydych chi'n destun ymchwiliad gan yr heddlu ar hyn o bryd am drosedd a allai arwain at euogfarn neu rybudd. Os ydych chi'n destun ymchwiliad gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol (gweler yr adran flaenorol), neu gan sefydliad gofal sylfaenol, rhaid i chi hefyd ddweud wrthym am hyn.

Os ydych chi'n destun ymchwiliad gan heddlu y tu allan i'r DU, am drosedd a allai arwain at euogfarn yng Nghymru neu Loegr, rhaid i chi ddatgan hyn. Hefyd, os ydych chi'n destun ymchwiliad gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol y tu allan i'r DU, rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn hefyd.

Wrth wneud datganiad mewn perthynas ag ymchwiliadau cyfredol, darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl, gan gynnwys gwybodaeth am yr amgylchiadau a arweiniodd at yr ymchwiliad. Bydd darparu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais.

Mewn achosion lle byddwn yn derbyn cais sy'n cynnwys datganiad am ymchwiliad presennol, mae'n annhebygol y bydd hyn yn eich atal rhag cael eich cofrestru. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar natur a difrifoldeb yr honiadau yn eich erbyn yr ymchwilir iddynt. Os byddwn yn penderfynu eich cofrestru, byddwn yn gofyn i chi roi gwybod i ni am ganlyniad yr ymchwiliad. Os bydd y canlyniad yn arwain at gosb i chi, neu os oes gennym bryderon am eich addasrwydd i ymarfer, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y GOC (os ydych wedi cofrestru ar y pryd); byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

Fel yn achos yr holl wybodaeth y gofynnwn amdani ac yr ydym yn ei dal amdano, bydd y GOC yn cael ei arwain gan egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 bod unrhyw ddata y gofynnir amdano, sydd yn cael ei ddal a'i brosesu gennym ni yn berthnasol ac yn gymesur â'r rhesymau pam ein bod wedi gofyn amdano.

Gwybodaeth arall

Yn ogystal â'r datganiadau a ddisgrifir uchod y mae'n ofynnol i chi eu gwneud, rhaid i unrhyw ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad GOC. Mae'r Cod yn disgrifio sut mae'r GOC yn disgwyl i'r rheini sydd ar ein cofrestr ymddwyn, er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd. Dylech wneud eich cais gan gyfeirio at y Cod a datgan unrhyw faterion i'r GOC ar eich cais a allai effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer. Gall y rhain gynnwys penderfyniad gwahardd cyfredol neu flaenorol a wnaed gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu Disclosure Scotland.

Bydd darparu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

Mae'r materion **nad oes** angen i ni gael gwybod amdanynt yn cynnwys:

- Cael eich datgan yn fethdalwr. Dim ond os gall amgylchiadau'r methdaliad effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer y dylid datgan hyn; ac
- Os ydych chi'n destun hawliad esgeulustod meddygol. Rydym yn cydnabod y gallai claf fod wedi gwneud hawliad yn eich erbyn mewn perthynas ag esgeulustod clinigol. Tra bod hyn yn cael sylw, nid oes angen i chi ddweud wrthym am hyn. Os ydych yn credu y gallai amgylchiadau'r hawliad effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer, dylech ddweud wrthym am hyn.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

Ymgeiswyr unigol sydd wedi cymhwyso'n llawn na chymhwysodd yn y DU

Os ydych chi'n dymuno cadw'ch enw ar gofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol, ac nad dych wedi cymhwyso yn y DU, mae'r broses gadw yr un fath â'r broses ar gyfer ymgeiswyr unigol sydd wedi cymhwyso yn y DU. Gweler yr adran '**Ymgeiswyr unigol sydd wedi cymhwyso'n llawn**' uchod, sy'n rhoi gwybodaeth am y datganiadau y mae'n ofynnol i chi eu gwneud.

Adran pump: sut rydym yn ystyried gwybodaeth a dderbyniwn

Mae'r adran hon yn egluro sut rydyn ni'n ystyried y wybodaeth rydych chi'n ei datgan a'r broses rydyn ni'n ei dilyn wrth ddod i benderfyniad. Mae hefyd yn trafod beth sy'n digwydd yn dilyn y penderfyniadau a wnawn. Rydyn ni wedi rhannu'r adran yn esboniad o sut rydyn ni'n delio â datganiadau am faterion iechyd, troseddol neu ddisgyblu, neu ymarfer pan nad ydych yn gofrestredig. Gan fod y broses yn debyg ar gyfer pob math o ddatganiad, ailadroddir peth o'r wybodaeth yn yr adran hon.

Gwybodaeth am iechyd

Os byddwch yn gwneud datganiad i ni sy'n ymwneud ag iechyd meddwl neu gorfforol, byddwn fel arfer yn gofyn i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

1. Rhagor o wybodaeth am natur eich cyflwr iechyd.
2. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn i chi roi llythyr i ni gan eich meddyg teulu neu glinigydd sy'n eich trin, neu ofyn am eich caniatâd i gysylltu â nhw, er mwyn iddynt allu rhoi rhagor o wybodaeth i ni am eich iechyd. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, gofynnir iddynt roi atebion i'r cwestiynau canlynol:
 - A yw'r cyflwr a ddatganwyd yn effeithio ar addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer?
 - Os ydyw, ym mha ffordd?
 - Beth yw symptomau'r cyflwr?
 - A yw'n gyflwr sy'n codi dro ar ôl tro/atglafychu?
 - A oes unrhyw ddsbarthiad ICD-10¹ sy'n berthnasol i'r cyflwr?
3. Yn ogystal ag unrhyw wybodaeth yr ydym wedi gofyn amdani gennych chi neu eich meddyg, byddwn yn gofyn i chi am unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'ch cyflwr iechyd ac a ydych yn credu ei fod yn effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer.
4. Yn dibynnu ar natur y cyflwr iechyd rydych chi'n ei ddatgan i ni, efallai y byddwn hefyd yn gofyn i chi edrych ar gymwyseddau clinigol perthnasol y Cyngor Optegol Cyffredinol ac ystyried a ydych chi'n credu y byddai eich cyflwr iechyd yn eich atal chi rhag bodloni'r holl gymwyseddau. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn am wybodaeth gan unrhyw berson neu sefydliad

Mae'r Dosbarthiad Ystadegol Rhyngwladol o Glifydau a Phroblemau Iechyd Cysylltiedig, 10fed Adolygiad (a elwir yn "ICD-10") yn rhestr dosbarthiad meddygol ar gyfer codio clefydau, arwyddion a symptomau, canfyddiadau annormal, cwynion, amgylchiadau cymdeithasol, ac achosion allanol anafiadau neu glefydau, fel y'u cynhelir gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).

Canllawiau ar ddatganiadau – sut rydym yn ystyried gwybodaeth y mae ymgeiswyr neu gofrestrwyr yn ei datgan

arall os ydyn ni'n credu ei bod yn berthnasol i'r datganiad rydych chi wedi'i wneud.

Bydd aelod o'r tîm Cofrestru yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a roddwyd i ni mewn perthynas â'r datganiad yn cael ei rhoi gerbron y Cofrestrydd, a fydd yn ei ystyried o fewn pum diwrnod gwaith.

Bydd y wybodaeth a roddir i'r Cofrestrydd yn cynnwys:

- Manylion yr ymgeisydd neu'r cofrestrai (Enw, cyfeirnod);
- Math o gais (cofrestru, adfer neu gadw);
- Dyddiad derbyn;
- Crynodeb o'r holl wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd neu'r cofrestrai;
- Rhestr o'r holl ddogfennau a ddarparwyd gan yr ymgeisydd neu'r cofrestrai ac unrhyw drydydd partion;

- Yr adran yn Neddf Optegwyr 1989 (fel y'i diwygiwyd yn 2005) sy'n darparu'r awdurdod i'r Cofrestrydd wneud penderfyniad ar y cais;
- Lle bo'n berthnasol, manylion unrhyw ddatganiadau tebyg a dderbyniwyd yn y gorffennol a'r penderfyniad a wnaed yn yr achosion hyn;
- Argymhelliad yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd; a
- Chopïau o'r holl ohebiaeth a dogfennau a dderbyniwyd gan y cofrestrai/ymgeisydd a thrydydd partion.

Bydd y Cofrestrydd yn penderfynu a ddylid caniatáu neu wrthod y cais. Wrth wneud y penderfyniad hwn, bydd y Cofrestrydd yn ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael ac yn rhoi rhesymau clir dros y penderfyniad a wnaed. Wrth wneud penderfyniad, bydd y Cofrestrydd yn ystyried:

- Amgylchiadau'r datganiad fel y'u nodir gan yr ymgeisydd;
- Unrhyw wybodaeth bellach a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, neu a geisiwyd gan y GOC; a
- Phenderfyniadau a wnaed mewn achosion sydd ag amgylchiadau tebyg (lle bo hynny'n berthnasol).

Os na fydd y Cofrestrydd yn dilyn yr argymhelliad a nodir, bydd yn rhoi rhesymau clir dros wneud hynny, yn ogystal â'i benderfyniad mewn perthynas â'r cais. Bydd y Cofrestrydd yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau dull cyson o wneud penderfyniadau. Bydd y camau hyn yn cynnwys adolygiad rheolaidd o'r broses a ddilynwyd a'r penderfyniadau a wnaed gan y Cofrestrydd, yn ogystal ag archwiliad o'r penderfyniadau hynny'n flynyddol.

Byddwch yn cael y rhesymau dros benderfyniad y Cofrestrydd pan fyddwn yn dweud wrthy ch beth yw canlyniad eich cais.

Os bydd y Cofrestrydd yn caniatáu cais a daw i'n sylw'n ddiweddarach y dylid bod wedi dod i benderfyniad gwahanol, bydd y Cofrestrydd yn cyfeirio'r mater at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol. Bydd yr ymgeisydd neu'r cofrestrai yn cael gwybod am hyn yn ysgrifenedig. I gael rhagor o wybodaeth am weithdrefn yr adran Addasrwydd i Ymarfer, cyfeiriwch at:

http://www.optical.org/en/Investigating_complaints/How_to_make_a_complaint/index.cfm

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad ystyriaeth y Cofrestrydd, efallai y byddwn yn dweud wrthy ch nad oes angen i chi ddatgan y mater i ni eto, neu mai dim ond os bydd eich amgylchiadau iechyd yn newid y bydd angen i ni gael gwybod am y cyflwr iechyd. Efallai y byddwn hefyd yn eich cynghori ar unrhyw gamau y bydd angen i chi eu cymryd yn y dyfodol mewn perthynas â'ch cyflwr iechyd a'ch cofrestriad. Os na fyddwch yn dilyn y cyngor hwn, gallai hyn effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer yn y dyfodol.

Gwneir penderfyniad y Cofrestrydd yn breifat ac ni chaiff rhesymau dros benderfyniadau eu cyhoeddi na'u darparu i unrhyw un heblaw'r ymgeisydd neu'r cofrestrai. Fodd bynnag, bydd achlysuron pan fydd ystyriaeth y Cofrestrydd ynghylch cais yn dod yn wybodaeth gyhoeddus. Os bydd hyn yn digwydd, bydd y GOC yn rhyddhau gwybodaeth yn unol â'n polisi datgelu ac yn unol â'r gyfraith er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yn ein gweithgareddau rheoleiddio.

Gwybodaeth am faterion troseddol neu ddisgyblu

Os byddwch yn gwneud datganiad i ni sy'n ymwneud â materion troseddol neu ddisgyblu, byddwn fel arfer yn gofyn i chi ddarparu rhagor o wybodaeth am natur yr

ymchwiliadau neu ganlyniadau hyn. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn i chi roi unrhyw dystysgrifau euogfarn neu rybudd i ni, archwiliadau cyfredol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (neu'r rhai sy'n cyfateb iddynt), neu gopiâu o drawsgrifiadau'r llys. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn am eich caniatâd i ofyn am wybodaeth amdanoch gan gyrrff ymchwilio, neu'n gofyn i chi ddarparu'r wybodaeth hon i ni. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn am wybodaeth gan unrhyw berson neu sefydliad arall os ydych chi'n credu ei bod yn berthnasol i'r datganiad rydych chi wedi'i wneud.

Yn ogystal ag unrhyw wybodaeth yr ydych chi wedi gofyn amdani gennych chi neu gorff ymchwilio, byddwn yn gofyn i chi am unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'ch datganiad ac a ydych chi'n credu ei fod yn effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer.

Bydd aelod o'r tîm Cofrestru yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a roddwyd i ni mewn perthynas â'r datganiad yn cael ei rhoi gerbron y Cofrestrydd, a fydd yn ei ystyried o fewn pum diwrnod gwaith.

Bydd y wybodaeth a roddir i'r Cofrestrydd yn cynnwys:

- Manylion yr ymgeisydd neu'r cofrestrai (Enw, cyfeirnod);
- Math o gais (cofrestru, adfer neu gadw);
- Dyddiad derbyn;
- Crynodeb o'r holl wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd neu'r cofrestrai;
- Rhestr o'r holl ddogfennau a ddarparwyd gan yr ymgeisydd neu'r cofrestrai ac unrhyw drydydd partïon;
- Yr adran yn Neddf Optegwyr 1989 (fel y'i diwygiwyd) sy'n rhoi'r awdurdod i'r Cofrestrydd wneud penderfyniad ar y cais;
- Lle bo'n berthnasol, manylion unrhyw ddatganiadau tebyg a dderbyniwyd yn y gorffennol a'r penderfyniad a wnaed yn yr achosion hyn;
- Argymhelliad yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd; a
- Copïau o'r holl ohebiaeth a dogfennau a dderbyniwyd gan y cofrestrai/ymgeisydd a thrydydd partïon.

Bydd y Cofrestrydd yn penderfynu a ddylid caniatáu neu wrthod y cais. Wrth wneud y penderfyniad hwn, bydd y Cofrestrydd yn ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael ac yn rhoi rhesymau clir dros y penderfyniad a wnaed. Wrth wneud penderfyniad, bydd y Cofrestrydd yn ystyried:

- Amgylchiadau'r datganiad fel y'u nodir gan yr ymgeisydd;
- Unrhyw wybodaeth bellach a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, neu a geisiwyd gan y GOC; a
- Penderfyniadau a wnaed mewn achosion sydd ag amgylchiadau tebyg (lle bo hynny'n berthnasol).

Os na fydd y Cofrestrydd yn dilyn yr argymhelliad a nodir, bydd yn rhoi rhesymau clir dros wneud hynny, yn ogystal â'i benderfyniad mewn perthynas â'r cais. Bydd y Cofrestrydd yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau dull cyson o wneud penderfyniadau. Bydd y camau hyn yn cynnwys adolygiad rheolaidd o'r broses a ddilynwyd a'r penderfyniadau a wnaed gan y Cofrestrydd, yn ogystal ag archwiliad o'r penderfyniadau hynny'n flynyddol.

Byddwch yn cael y rhesymau dros benderfyniad y Cofrestrydd pan fyddwn yn dweud wrthy ch beth yw canlyniad eich cais.

Yn gyffredinol, ni fydd y Cofrestrydd yn gwrthod cais ar y sail bod ymchwiliad yn mynd rhagddo, ond mae'n cadw'r hawl i wneud hynny yn dibynnu ar amgylchiadau datganiadau unigol. Yn eithriadol iawn, fodd bynnag, bydd y Cofrestrydd yn gwrthod cais lle mae ymchwiliad yn mynd rhagddo. Y rheswm am hyn yw mai prif ddyletswydd y Cyngor yw diogelu aelodau o'r cyhoedd.

Yn unol â hynny, mewn sefyllfa lle gellir atal cofrestrai presennol y GOC o dan adran 13L Deddf Optegwyr 1989 (fel y'i diwygiwyd) drwy orchymyn interim, gall y Cofrestrydd benderfynu er mwyn diogelu'r cyhoedd, neu er budd y cyhoedd, neu er budd y cofrestrai ei hun, y dylid gwrthod y cais i gadw ar y gofrestr.

Bydd yr holl benderfyniadau a wneir gan y Cofrestrydd yn cael eu cofnodi a byddwch yn cael y rhesymau dros y penderfyniad pan fyddwn yn dweud wrthy ch beth yw canlyniad ystyriaeth y Cofrestrydd.

Os bydd y Cofrestrydd yn caniatáu cais a daw i'n sylw'n ddiweddarach y dylid bod wedi dod i benderfyniad gwahanol (er enghraifft, mae ymchwiliad wedi dod i gasgliad gyda chanlyniad allai effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer), bydd y Cofrestrydd yn cyfeirio'r mater at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol. Bydd yr ymgeisydd neu'r cofrestrai yn cael gwybod am hyn yn ysgrifenedig. I gael rhagor o wybodaeth am weithdrefn yr adran Addasrwydd i Ymarfer, cyfeiriwch at:
http://www.optical.org/en/Investigating_complaints/How_to_make_a_complaint/index.cfm

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad ystyriaeth y Cofrestrydd, efallai y byddwn yn dweud wrthy ch nad oes angen i chi ddatgan y mater i ni eto. Efallai y byddwn hefyd yn eich cynghori ar unrhyw gamau y bydd angen i chi eu cymryd yn y dyfodol mewn perthynas â'r datganiad hwn a'ch cofrestriad. Os na fyddwch yn dilyn y cyngor hwn, gallai hyn effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer yn y dyfodol. Os ydych chi wedi datgan eich bod yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, byddwn yn gofyn i chi roi gwybod i ni am ganlyniad yr ymchwiliad cyn gynted ag y byddwch yn ei wybod.

Gwneir penderfyniad y Cofrestrydd yn breifat ac ni chyhoeddir y rhesymau dros y penderfyniad. Fodd bynnag, bydd achlysuron pan fydd ystyriaeth y Cofrestrydd ynghylch cais yn dod yn wybodaeth gyhoeddus. Os bydd hyn yn digwydd, bydd y GOC yn rhyddhau gwybodaeth yn unol â'n polisi datgelu ac yn unol â'r gyfraith er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yn ein gweithgareddau rheoleiddio.

Ymarfer tra'n anghofrestredig

Os ydych yn datgan i ni eich bod wedi ymarfer tra nad ydych wedi cofrestru, byddwn fel arfer yn gofyn i chi ddarparu rhagor o wybodaeth am y gweithgareddau yr ydych wedi ymgymryd â nhw. Byddwn hefyd yn gofyn i chi a gynhaliwyd y gweithgareddau hyn dan oruchwyliaeth ac, os felly, byddwn yn gofyn am enw a rhif GOC eich goruchwylwr. Yna, efallai y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth gan eich goruchwylwr. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn am wybodaeth gan unrhyw berson neu sefydliad arall os ydyn ni'n credu ei bod yn berthnasol i'r datganiad rydych chi wedi'i wneud.

Yn ogystal ag unrhyw wybodaeth yr ydym wedi gofyn amdani gennych chi neu unrhyw gorff arall, byddwn yn gofyn i chi am unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'ch datganiad ac a ydych yn credu ei fod yn effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer.

Bydd aelod o'r tîm Cofrestru yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a roddwyd i ni mewn perthynas â'r datganiad yn cael ei rhoi gerbron y Cofrestrydd, a fydd yn ei ystyried o fewn pum diwrnod gwaith.

Bydd y wybodaeth a roddir i'r Cofrestrydd yn cynnwys:

- Manylion yr ymgeisydd neu'r cofrestrai (Enw, cyfeirnod);
- Math o gais (cofrestru, adfer neu gadw);
- Dyddiad derbyn;
- Crynodeb o'r holl wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd neu'r cofrestrai;
- Rhestr o'r holl ddogfennau a ddarparwyd gan yr ymgeisydd neu'r cofrestrai ac unrhyw drydydd partïon;

- Yr adran yn Neddf Optegwyr 1989 (fel y'i diwygiwyd) sy'n rhoi'r awdurdod i'r Cofrestrydd wneud penderfyniad ar y cais;
- Lle bo'n berthnasol, manylion unrhyw ddatganiadau tebyg a dderbyniwyd yn y gorffennol a'r penderfyniad a wnaed yn yr achosion hyn;
- Argymhelliad yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd; a
- Chopïau o'r holl ohebiaeth a dogfennau a dderbyniwyd gan y cofrestrai/ymgeisydd a thrydydd partion.

Bydd y Cofrestrydd yn penderfynu a ddylid caniatáu neu wrthod y cais. Wrth wneud y penderfyniad hwn, bydd y Cofrestrydd yn ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael ac yn rhoi rhesymau clir dros y penderfyniad a wnaed. Wrth wneud penderfyniad, bydd y Cofrestrydd yn ystyried:

- Amgylchiadau'r datganiad fel y'u nodir gan yr ymgeisydd;
- Unrhyw wybodaeth bellach a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, neu a geisiwyd gan y GOC; a
- Phenderfyniadau a wnaed mewn achosion sydd ag amgylchiadau tebyg (lle bo hynny'n berthnasol).

Os na fydd y Cofrestrydd yn dilyn yr argymhelliad a nodir, bydd yn rhoi rhesymau clir dros wneud hynny, yn ogystal â'i benderfyniad mewn perthynas â'r cais. Bydd y Cofrestrydd yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau dull cyson o wneud penderfyniadau. Bydd y camau hyn yn cynnwys adolygiad rheolaidd o'r broses a ddilynwyd a'r penderfyniadau a wnaed gan y Cofrestrydd, yn ogystal ag archwiliad o'r penderfyniadau hynny'n flynyddol.

Byddwch yn cael y rhesymau dros benderfyniad y Cofrestrydd pan fyddwn yn dweud wrthyich beth yw canlyniad eich cais.

Os bydd y Cofrestrydd yn caniatáu cais a daw i'n sylw'n ddiweddarach y dylid bod wedi dod i benderfyniad gwahanol, bydd y Cofrestrydd yn cyfeirio'r mater at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol.

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad ystyriaeth y Cofrestrydd, efallai y byddwn yn dweud wrthyich nad oes angen i chi ddatgan y mater i ni eto. Efallai y byddwn hefyd yn eich cyngori ar unrhyw gamau y bydd angen i chi eu cymryd yn y dyfodol mewn perthynas â'r datganiad hwn a'ch cofrestrriad. Os na fyddwch yn dilyn y cyngor hwn, gallai hyn effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer yn y dyfodol.

Gwneir penderfyniad y Cofrestrydd yn breifat ac ni chyhoeddir y rhesymau dros y penderfyniad. Fodd bynnag, bydd achlysuron pan fydd ystyriaeth y Cofrestrydd ynghylch cais yn dod yn wybodaeth gyhoeddus. Os bydd hyn yn digwydd, bydd y GOC yn rhyddhau gwybodaeth yn unol â'n polisi datgelu ac yn unol â'r gyfraith er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yn ein gweithgareddau rheoleiddio.

Sut i apelio yn erbyn penderfyniad

Fel y disgrifir uchod, bydd penderfyniad y Cofrestrydd yn cael ei roi i chi'n ysgrifenedig gyda'r rhesymau. Hefyd yn y llythyr ceir gwybodaeth am sut i apelio yn erbyn penderfyniad y Cofrestrydd.

Dan delerau paragraff dau atodlen 1A Deddf Optegwyr 1989 (fel y'i diwygiwyd), mae penderfyniad gennym ni i beidio â'ch cofrestru yn benderfyniad y gellir apelio yn ei erbyn. Felly, mae'n agored i chi apelio i'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru yn erbyn y penderfyniad hwn i beidio â derbyn eich enw i'r gofrestr. Os ydych chi'n dymuno gwneud apêl o'r fath, rhaid i chi roi hysbysiad o apêl yn unol â pharagraff pedwar o Atodlen 1A.

Dan delerau paragraff 4 (3) yr atodlen honno, mae gennych 28 diwrnod o ddyddiad y llythyr sy'n rhoi gwybod i chi am benderfyniad y Cofrestrydd i roi gwybod i ni, yn ysgrifenedig, os ydych yn dymuno mynd ar drywydd apêl. Os na fyddwch yn dweud wrthym eich bod yn dymuno apelio o fewn 28 diwrnod ni fyddwch yn gallu apelio yn ddiweddarach.

Ar ôl i ni dderbyn hysbysiad eich bod yn dymuno apelio, byddwn yn cysylltu â chi i gadarnhau ein bod wedi derbyn eich gohebiaeth a beth fydd y camau nesaf.

Os nad ydych yn dymuno apelio, nid yw hyn yn eich atal rhag gwneud cais arall yn y dyfodol. Fodd bynnag, os byddwch yn gwneud hyn, dylech ystyried y rhesymau pam y gwrthododd y Cofrestrydd eich cais a beth, os o gwbl, y gallwch ei wneud i fodloni'r Cofrestrydd eich bod yn berson addas i fod ar gofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol.

Ble i gael rhagor o wybodaeth

Gall y dogfennau canlynol fod o gymorth i chi pan fyddwch yn gwneud cais sy'n cynnwys datganiad:

- Codau Ymddygiad GOC;
- Deddf Optegwyr 1989 (fel y'i diwygiwyd), a Rheolau'r Cyngor Optegol Cyffredinol;
- Y cymwyseddau ar gyfer optometryddion ac optegwyr cyflenwi; a'r
- Protocol ar gyfer ymchwilio i droseddau a'u herlyn.

Mae'r holl wybodaeth hon ar ein gwefan.

Ymwadiad

Canllaw yn unig yw'r wybodaeth yn y ddogfen hon ac mae'n gywir ar y dyddiad sydd ar y dudalen gyntaf. Bwriedir iddi fod yn ddogfen fyw. Caiff ei diwygio fel y bo'n briodol, gan ystyried profiad cynyddol GOC wrth ddelio â cheisiadau gyda datganiadau, yn ogystal â datblygiadau cyfreithiol, gan gynnwys diwygio/cyflwyno

deddfwriaeth a chyfraith achosion newydd. Bydd y GOC yn adolygu'r canllawiau hyn o bryd i'w gilydd. Bydd y GOC yn tynnu sylw at unrhyw ddiwygiadau sylweddol i'r canllawiau hyn drwy gyhoeddi'r fersiwn diwygiedig ar wefan y GOC, www.optical.org o leiaf mis cyn y bydd y Cofrestrydd yn defnyddio'r canllawiau diwygiedig.

Atodiad un – Datganiad y Cyngor Optegol Cyffredinol ar geisiadau i drosglwyddo cofrestriad lle mae'r ymgeisydd yn destun ymchwiliad addasrwydd i ymarfer gan y Cyngor Optegol Cyffredinol.

O bryd i'w gilydd, bydd y GOC yn derbyn ceisiadau gan gofrestreion sy'n dymuno trosglwyddo eu cofrestriad o un rhan o'r gofrestr GOC i un arall. Fel arfer, mae hyn yn digwydd pan fydd optometryddion sy'n fyfyrwyr neu optegwyr cyflenwi yn cwblhau eu cymhwyster ac yn gwneud cais i gofrestru fel ymarferydd sydd wedi cymhwyso'n llawn.

Mewn achosion lle gwneir cais i drosglwyddo a bod yr ymgeisydd yn destun ymchwiliad addasrwydd i ymarfer, bydd y GOC yn gwrthod y cais i drosglwyddo hyd nes bod yr ymchwiliad wedi dod i ben. Ni fydd y Cofrestrydd yn ystyried amgylchiadau unrhyw achos unigol wrth wneud y penderfyniad hwn; ffaith yr ymchwiliad fydd y rheswm dros wrthod.